# Canllawiau Cynllunio ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig ar Fentrau Garddwriaethol Graddfa Lai

**Chwefror 2025**

**Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg**

**This document is also available in English**

terrapermageo

Bannau Brycheiniog

# Cynnwys


**1. Rhagarweiniad ..... 4**

1.1. Trosolwg ..... 4

1.2. Cyd-destun Polisi a Chyfarwyddyd ..... 5

1.3. Graddfa Lai ..... 6

1.4. Ffermio Amaethecolegol ..... 6

**2. Prawf Angen Swyddogaethol ..... 7**

2.1. TAN 6 ..... 7

2.2. Graddfa ..... 8

2.3. Llafur ..... 8

2.4. Patrymau Gwaith ..... 9

2.5. Garddwriaeth ..... 10

2.6. Anifeiliaid ..... 11

2.7. Awtomeiddio / Technoleg / Peiriannau ..... 11

2.8. Sefyllfaoedd Annisgwyl ..... 11

**3. Prawf Amser ..... 12**

3.1. Mewnbwn Llafur Llawn Amser ..... 12

3.2. Oriau Gwaith ac Asesiadau Safonedig ..... 12

3.3. Data Amgen ..... 13

**4. Prawf Ariannol ..... 14**

4.1. TAN 6 ..... 14

4.2. Enillion y Farchnad ac Elw ..... 14

4.3. Cynaliadwyedd Economaidd ..... 15

4.4. Maint a Math yr Annedd ..... 16

4.5. Anheddau Dros Dro ..... 17

**5. Crynodeb o Wybodaeth sydd ei Hangen gan Ymgeiswyr ..... 18**

5.2. Cais Math 1 – ar gyfer Annedd Newydd ar Fenter Sefydledig ..... 18

5.3. Cais Math 2 – ar gyfer Annedd Dros dro ar Fenter newydd ..... 19

**6. Cyfarwyddyd i'r sawl sy'n Paratoi Gwerthusiad o Annedd Menter Wledig 20**

6.2. Gwerthusiad Math 1 – Cais ar gyfer Annedd Newydd ar Fenter Sefydledig ..................20

Asesu Angen Swyddogaethol ..................20

6.3. Asesu Mewnbwn Llafur ..................20

6.4. Asesu'r Prawf Ariannol ..................20

6.5. Gwerthusiad Math 2 - Ar gyfer Ceisiadau ar gyfer Anheddau Dros Dro Newydd ar Fentrau Newydd ..................21

6.6. Asesu Bwriad a Gallu ..................21

6.7. Asesu Angen Swyddogaethol ..................21

6.8. Asesu Mewnbwn Llafur ..................21

6.9. Asesu'r Prawf Ariannol ..................22

6.10. Profion eraill TAN 6 ..................22

**Geirfa ..................23**

Atodiad 1 - Detholiadau o Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol ..................24

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1. Trosolwg

1.1.1 Diben y canllawiau cynllunio hyn yw ehangu ar bolisi a chanllawiau Cenedlaethol ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig (RED) er mwyn mynd i'r afael â'r amgylchiadau arbennig sy'n berthnasol i fentrau garddwriaethol graddfa lai, y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dymuno eu cefnogi. Felly mae'r canllawiau hyn yn ategu'r cyfarwyddyd Cenedlaethol presennol ar gyfer RED[1]. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC)[2] a Nodyn Cyngor Technegol 6 (TAN 6)[3]. Mae'n egluro pryd mae'r canllawiau hyn yn ychwanegu at y Canllawiau Cenedlaethol a pham.

1.1.2 Awgryma tystiolaeth y gall garddwriaeth raddfa lai creu cynhyrchiant ac elw uchel o safleoedd gweddol fach. Ers y 1950au, bu lleihad sylweddol yn y ffrwythau a llysiau a gynhyrchir, ac mae potensial mawr i adleoli'r bwydydd hyn, a bwydydd eraill. Hefyd gall ffermydd llai eu maint gynhyrchu buddion amgylcheddol ehangach a buddion eraill ac maent yn helpu cefnogi bywydau iachach trwy gynhyrchu bwyd lleol ffres a llawn maeth.

1.1.3 Mae dulliau ffermio amaethecolegol, ac adleoli cynhyrchu bwyd yn gallu gwneud cyfraniadau gwerthfawr i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ogystal â chryfhau cydnerthedd y gadwyn fwyd leol.

1.1.4 Bydd llawer o'r mentrau garddwriaethol llai y mae'r canllawiau hyn er eu budd, yn defnyddio dulliau dwys wrth gynhyrchu, a darnau gweddol fach o dir er mwyn creu cynhyrchiant gweddol uchel. Yn y cyd-destun hwn, mae dwys yn cyfeirio at y berthynas hon. Mae cnydau dwysedd uchel, amgylchfyd tyfu a reolir yn agos, dulliau rheoli plâu integredig, cylchdroi cnydau a phlannu ar gyfer olyniaeth, yn canolbwyntio ar gnydau uchel eu gwerth, a gyda mewnbwn llafur medrus a chompostau, yn aml byddant yn cyflawni perfformiad cadarn o dan safonau organig a safonau eraill, sydd hefyd yn gwella ecosystemau heb yr angen ar gyfer lefel uchel o fewnbwn synthetig.

1.1.5 Weithiau bydd da byw megis ieir a moch yn rhan atodol o fentrau garddwriaethol graddfa lai, er mwyn helpu gyda'r cylch maethynnau a rheoli plâu ac i ddarparu ffrydiau incwm atodol trwy werthu'r cig a'r wyau. Er hynny, nid y da byw fydd prif ddefnyddwyr y tir.

1.1.6 Un sail ar gyfer y canllawiau hyn yw'r adroddiad ymchwil ar Broblemau Cynllunio ar gyfer Ffermydd Garddwriaethol Llai sy'n Ceisio Anheddau Ar y Safle - Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Sir Fynwy a Phowys (2023). Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r achos dros ddulliau mwy gofalus a deallus o ran asesu bodloni'r profion gweithredol, amser ac ariannol ar gyfer mentrau garddwriaethol llai eu maint. Nid ydym yn ail-adrodd yr hyn a drafodwyd a'r cyfiawnhad yma, ond mae'r dulliau tuag at asesu'r fath fentrau oedd yn sail i'r adroddiad yn sail ar gyfer agwedd y canllawiau cynllunio hyn mewn perthynas ag asesu.

[1] Aneddiadau Mentrau Gwledig – Nodyn Cyngor Technegol 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2011)
[2] Polisi Cynllunio Cymru 2024
[3] Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy

## 1.2. Cyd-destun Polisi a Chyfarwyddyd

1.2.1 Mae'r canllawiau hyn yn ategu PCC a TAN 6. Mae adrannau allweddol PCC a TAN 6 wedi cael eu cynnwys yn Atodiad 1.

1.2.2 Mae PCC yn adnabod Anheddau Mentrau Gwledig fel un o'r ychydig amgylchiadau lle gellir cyfiawnhau datblygiad preswyl newydd mewn cefn gwlad agored. Mae TAN 6 yn ehangu ar PCC ac yn diffinio Anheddau Mentrau Gwledig fel a ganlyn:

- Annedd newydd ar fenter wledig sefydledig lle mae angen am weithiwr llawn amser.
- Ail annedd ar fferm sefydledig sy'n ariannol gynaliadwy, i hwyluso trosglwyddo busnes y fferm i ffermwr ifancach.
- Ail annedd ar fferm sefydledig sy'n ariannol gynaliadwy, lle mae angen am 0.5 o weithiwr 0.5 amser neu fwy ychwanegol
- Annedd newydd ar fenter wledig newydd lle mae angen swyddogaethol am weithiwr amser llawn

1.2.3 Mae'r olaf yn fwyaf cyffredin mewn perthynas â mentrau garddwriaethol graddfa lai, ond mae potensial i bob un ohonynt fod yn berthnasol.

1.2.4 Mae TAN 6, Paragraff 4.6, yn olrhain y gofynion ar gyfer annedd menter wledig newydd ar fenter newydd, ac yn egluro bod yn rhaid i geisiadau cynllunio gael eu hategu gan dystiolaeth gadarn ar ffurf **Gwerthusiad o Annedd Menter Wledig**. Mae'n rhaid i hyn alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud asesiad llawn ac effeithiol o'r cais.

1.2.5 Mae'n rhaid i werthusiad o Annedd Menter Wledig ddelio gyda'r profion canlynol:

- **Prawf swyddogaethol** - I ddarparu tystiolaeth bod angen ar gyfer gweithiwr preswyl er mwyn i'r fenter weithio'n iawn. Mae'n rhaid dangos angen ar gyfer un neu fwy o weithwyr sydd ar gael y rhan fwyaf o'r amser. Dylai ymdrin â sefyllfaoedd annisgwyl a all godi, lle bydd angen i weithwyr fod ar gael tu allan i oriau gwaith arferol ar gyfer y fenter dan sylw.
- **Prawf amser** – I ddarparu tystiolaeth o'r angen o ran llafur ar gyfer y gweithiwr.
- **Prawf ariannol** – I ddarparu tystiolaeth o ran cynaliadwyedd economaidd y fenter.
- **Prawf anheddau eraill** - er mwyn adnabod a oes adeilad neu annedd presennol addas ar gael i'w addasu ar y fenter, neu yn yr ardal.
- **Prawf gofynion cynllunio normal eraill** - I ddangos bod yr annedd mewn lleoliad addas er mwyn diwallu'r angen a nodwyd ac i leihau'r effaith ar yr amgylchedd ehangach.

1.2.6 Mae'r canllawiau cynllunio hyn yn canolbwyntio ar brofion swyddogaethol, amser ac ariannol er mwyn cefnogi mentrau garddwriaethol gwledig llai eu maint sydd efallai'n ystyried yr angen ar gyfer annedd menter wledig ar gyfer gweithiwr preswyl. Mae'n ychwanegu cyd- destun hanfodol o ran deall garddwriaeth lai ei maint yn iawn, ac agweddau penodol o ran asesu eu nodweddion a'u rhinweddau.

## 1.3. Graddfa Lai

1.3.1 At ddibenion y canllawiau cynllunio hyn, ni ddiffinnir graddfa lai gan ffactorau megis maint y daliad, cyfaint cynhyrchu na nifer y gweithwyr. Diffinnir graddfa lai gan hyfywedd y daliad /fenter. Y rheswm am hyn yw bod graddfa hyfyw daliad yn dibynnu ar y dulliau ffermio sy'n cael eu mabwysiadu a natur y busnes sy'n angenrheidiol i'w gyflawni - nid yw synnwyr y bawd yn ddigon.

1.3.2 Mae'r prawf ariannol, sy'n cael ei egluro yn y canllawiau hyn, yn archwilio a yw menter y fferm yn economaidd gynaliadwy ac yn gallu cefnogi anghenion yr aelwyd sy'n ceisio adeiladu annedd menter wledig newydd. Ni fydd mentrau sy'n rhy fach yn gallu gwneud hyn, ac felly mae diffinio llai eu maint at ddiben y canllawiau hyn yn syml iawn, yn golygu a yw'r prawf ariannol yn cael ei fodloni.

1.3.3 Rhagwelir y bydd ystod o fentrau gwahanol ar ddaliadau garddwriaethol gwahanol eu meintiau fydd yn gallu diwallu'r angen yma trwy fabwysiadu a pherfformiad modelau busnes ffermydd gwahanol.

## 1.4. Ffermio Amaethecolegol

1.4.1 Yn aml bydd mentrau garddwriaethol llai eu maint yn mabwysiadu dulliau tyfu amaethecolegol. Er nad yw hyn yn ofynnol, byddem yn croesawu gweddu dulliau tyfu felly gydag amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach Cyngor Sir Powys.

1.4.2 Dull tyfu fferm gyfan yw amaethecoleg sy'n ceisio deall a rheoli systemau amaethyddol er mwyn darparu buddion amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'n defnyddio cysyniadau ac egwyddorion ecolegol i alluogi ffermio i weithio mewn cytgord gyda systemau naturiol. Mae ei **nodweddion allweddol fel a ganlyn**:

**Lliniaru newid hinsawdd** – lleihau allyriadau, cynyddu atafaelu, ailgylchu adnoddau a blaenoriaethu cadwyni cyflenwi lleol.

**Bioamrywiaeth -** hyrwyddo amrywiaeth rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid, gan gynnwys y rhain nad ydynt yn cael eu ffermio, i gyfoethogi cydnerthedd ecosystemau a harneisio natur ar gyfer tasgau megis rheoli plâu.

**Iechyd y pridd** – pwysleisio pwysigrwydd cynnal a gwella ffrwythlondeb y pridd trwy ddulliau megis cynyddu deunydd organig, cylchdroi cnydau, a throi'r tir cyn lleied â phosibl.

**Llai o fewnbwn cemegol –** defnyddio cyn lleied o blaladdwyr a gwrtaith synthetig â phosibl a defnyddio dulliau rheoli biolegol a gwrtaith organig.

**Cadw dŵr -** defnyddio technegau dyfrio effeithlon o ran dŵr ac arferion rheoli dŵr mewn ffordd gynaliadwy.

**Gwybodaeth leol -** deall ac ymgorffori gwybodaeth draddodiadol a lleol ym maes amaeth i arferion amaethyddol cyfoes lle byddant yn fuddiol.

**Tegwch cymdeithasol ac economaidd** – meithrin cyfraniad y gymuned, arferion llafur teg, a phrisiau teg ar gyfer cynhyrchwyr a defnyddwyr fel ei gilydd.

1.4.3 Bydd y graddau y bydd menter arddwriaethol lai ei maint yn gallu ymgorffori'r

nodweddion hyn yn amrywio yn ddibynnol ar ddaearyddiaeth a natur neilltuol y fenter dan sylw.

# 2. Prawf Angen Swyddogaethol

## 2.1. TAN 6

2.1.1 Mae angen prawf swyddogaethol er mwyn cadarnhau a yw'n hanfodol, er mwyn i'r fenter redeg yn iawn, i un neu fwy o weithwyr bod ar gael y rhan fwyaf o'r amser ar neu yn agos at y safle dan sylw. Dylai ymwneud â sefyllfaoedd annisgwyl a all godi, lle bydd gofyn i weithwyr fod ar gael tu allan i oriau gwaith arferol y fenter dan sylw.

2.1.2 Ar gyfer mentrau garddwriaethol llai eu maint, nid mater o asesu un dasg ar ei phen ei hun yw, ond cyfuniad o lawer o dasgau a ffactorau sy'n berthnasol i redeg y fenter yn ei chyfanrwydd mewn ffordd effeithiol.

2.1.3 Mae'r canllawiau cynllunio hyn yn nodi ffactorau y dylid eu hystyried ar gyfer **gwerthusiad o annedd menter wledig** ar gyfer mentrau garddwriaethol llai eu maint.

2.1.4 Mae cyfiawnhau angen swyddogaethol yn ystyriaeth o ran gallu'r fenter i redeg yn iawn a lleihau'r risgiau cymaint â phosibl o ran ei hyfywedd a'i bodolaeth oherwydd:

- Maint.
- Gofynion o ran cymeriad a rheolaeth:
    - Nifer y gweithwyr
    - Patrymau gweithio
    - Yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu
    - Sut mae'n cael ei gynhyrchu
    - Lefel y mecaneiddio
    - Llwybrau i'r farchnad
    - Gwerthu uniongyrchol
    - Amodau sy'n benodol i'r safle megis math y tir a'r pridd, ei agwedd a'r ffordd mae'n wynebu
- Cyfuniadau o weithgareddau, risgiau a ffactorau eraill, sydd ar y cyd yn dangos yr angen swyddogaethol.
- Yr angen ar gyfer sylw prydlon gweithiwr (gweithwyr), a heb hynny, gall digwyddiadau neu amgylchiadau annisgwyl neu argyfwng arwain at:
    - Ansawdd cnydau neu gynnyrch anffafriol
    - Colled sylweddol o eginblanhigion, planhigion plwg a chnydau
    - Lles anffafriol anifeiliaid
    - Problemau iechyd a diogelwch
- Problemau diogelwch

- Amodau tai lleol

2.1.5 Mae sefyllfaoedd annisgwyl yn 'amgylchiadau na ellir eu rheoli'n briodol oddi mewn oriau gwaith arferol.' Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol yn pennu'r oriau gwaith arferol, sef wyth awr y diwrnod, gydag egwyl o o leiaf 30 munud[4].

2.1.6 Ni ystyrir bod diwrnod o waith sy'n cael ei gyflawni dros gyfnod sylweddol hwy nag 8 awr oherwydd gofynion gweithredol yn oriau gwaith arferol.

**Mae'r isadrannau isod yn ehangu ar y pwyntiau bwled uchod.**

## 2.2. Graddfa

2.2.1 Fel y nodir yn Adran 1.3 diffinnir graddfa lai gan hyfywedd y fenter arddwriaethol.

2.2.2 Yn ogystal ystyrir graddfa er mwyn asesu angen swyddogaethol oherwydd gall graddfa fod yn ffactor o ran lefel y risg sy'n deillio o ddigwyddiadau annisgwyl oherwydd gall y niwed a achosir i fenter lai fod yn fwy o safbwynt cymesur nag effaith debyg mewn menter fwy.

2.2.3 Hefyd gall graddfa effeithio ar argaeledd gweithwyr fel yr eglurir isod.

## 2.3. Llafur

2.3.1 Mae menter arddwriaethol lai ei maint yn dibynnu ar weithredwr (wyr) perchnogion i ddarparu'r llafur tu allan i oriau gwaith arferol ar gyfer mwyafrif y flwyddyn.

2.3.2 Gall gwerthiant uniongyrchol a/neu fynd i farchnadoedd lleol effeithio ar ddiwrnod o waith a thasgau hanfodol eraill, megis gofalu am eginblanhigion, cynaeafu, gofalu am gnydau a da byw lle bo'n berthnasol, oherwydd mae'n rhaid delio gyda'r tasgau hyn o gwmpas y gweithgaredd hwn, ac o ganlyniad ymestyn y diwrnod gwaith.

2.3.3 Yn aml bydd gweithredwyr perchnogion hunangyflogedig yn gweithio dyddiau hirach na'r arfer, gan gychwyn yn gynnar a gorffen yn hwyr am hyd at saith diwrnod yr wythnos, yn enwedig yn ystod adegau prysur y tymor, ac mae hon yn nodwedd gyffredin a dilys mentrau garddwriaethol graddfa lai sy'n angenrheidiol iddynt redeg yn iawn. Gall amgylchiadau fel hyn gyfrannu at yr achos o ran angen swyddogaethol.

> Er enghraifft:
>
> Er mwyn cyrraedd yr ansawdd uchaf, mae'n rhaid dyfrio cnydau bregus eu natur gyda'r hwyr y diwrnod blaenorol i sicrhau eu bod yn sych ac yn ffres y bore canlynol. Mae'r arfer yma hefyd yn lleihau defnydd o ddŵr. Mae dyfrio cywir yn golygu asesu lleithder y pridd a chyflwr y cnwd. Hwyrach mai dim ond dau ymweliad deg munud yr un sydd eu hangen ar gyfer y broses o wirio a dyfrio ar ddechrau a diwedd y broses, ac nid yw'n economaidd cyflogi rhywun i gyflawni'r tasgau hyn, ac nid yw system awtomataidd yn briodol oherwydd yr angen ar gyfer gwiriadau.
>
> Wedyn mae'n rhaid cynaeafu'r cnydau'n gynnar yn y bore cyn i haul y bore gynhesu'r planhigion, a'u gosod mewn lle oer i'w cadw cyn iddyn nhw wywo. Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau'r oes silff hiraf posibl.

[4] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2023/260/made

2.3.4 Ar gyfer mentrau garddwriaethol graddfa lai, hwyrach na fydd trefniadau lle mae angen cyflogi staff a gweithio sifftiau yn hyfyw nac yn fforddiadwy. Yn ogystal, gall fod yn anodd cael hyd i weithwyr allanol addas a pharod i weithio. Felly, hwyrach na fydd yn hyfyw i'r fenter dalu gweithiwr i ddod i'r fferm ar adeg gwrthgymdeithasol neu ar y penwythnos i gyflawni tasgau am gyfnod byr yn unig.

2.3.5 Er enghraifft, hwyrach y bydd mentrau graddfa fwy'n gallu caniatáu cyflogi gweithwyr y gellir eu rheoli trwy weithio sifftiau, er mwyn gallu cyflawni'r tasgau trwy gydol y dydd, neu yn ystod y nos os bydd y seilwaith yn darparu ar gyfer hyn, tu allan i oriau gwaith arferol. Gellir defnyddio system awtomataidd efallai i leihau'r angen ar gyfer gweithwyr yn y mentrau hyn, ond fel arfer caiff ei roi ar waith ochr yn ochr â phresenoldeb gweithwyr sy'n monitro ac yn sicrhau fod y system yn gweithio'n iawn.

2.3.6 Weithiau gall incwm y fenter arddwriaethol dalu am weithwyr ychwanegol (rhan amser weithiau) ar adegau prysur pan fydd digon o oriau i ddenu gweithwyr, ac yn aml defnyddir hyn i helpu gyda thasgau megis plannu a chwynnu ac i sicrhau fod y cynaeafu a'r cludo'n digwydd yn unol ag amserlenni i sicrhau cynnyrch o safon. Hefyd hwyrach y bydd angen llawer o weithwyr ychwanegol ar gyfer cyfnodau amser cyfyngedig ar ffermydd bach.

Er enghraifft:

Mae cynaeafu ffrwythau meddal, cnydau ffa a chodennau yn ddwys iawn o safbwynt llafur. Ar Fferm Mora yng Nghernyw, mae mefus a ffa Ffrengig yn gnydau allweddol oedd yn gyfrifol am gyfrannu tua £40,000 yn 2020. Mae'r ffa Ffrengig yn cael eu cynaeafu pump neu chwe diwrnod yr wythnos dros gyfnod o dri mis, ac mae'n cymryd rhyw 12 awr o waith bob dydd. Mae angen 60 awr o waith yr wythnos am bythefnos i gynaeafu'r mefus yn unig (heb sôn am yr amser i feithrin a chynnal a chadw'r cnwd).

2.3.7 Hwyrach y bydd gweithwyr yn ddibrofiad, a bydd angen goruchwyliaeth ddigonol ar rai i sicrhau eu hiechyd a diogelwch ac ansawdd y cnwd, ac efallai y bydd gofyn i'r ffarmwr fod ar gael i gyfarwyddo'r gwaith fel bo angen, hyd yn oed yn ystod egwyl. Hwyrach y bydd amgylchiadau felly'n cyfrannu at gyfiawnhau'r angen swyddogaethol, a dylid eu darparu fel rhan o'r Gwerthusiad ar gyfer Annedd Menter Wledig.

## 2.4. Patrymau Gwaith

2.4.1 Bydd menter arddwriaethol graddfa lai hyfyw o raddfa y gellir ei rheoli gan y ffarmwr berchennog trwy ddefnyddio lefel briodol o dechnoleg, peiriannau a systemau awtomataidd gyda neu heb gymorth gweithwyr ychwanegol ar adegau prysur a pharhau i wneud elw.

2.4.2 Yn benodol, yn aml caiff mentrau garddwriaethol llai eu maint eu strwythuro o gwmpas cyfres o weithrediadau, gan adlewyrchu talu sylw at fanylder ac ymateb i amodau amgylcheddol angenrheidiol er mwyn lluosogi a chynhyrchu cnydau uchel eu safon o amrediad eang o gnydau llysiau gwahanol, a gofalu am dasgau amrywiol sy'n ymwneud â chynhyrchiant, marchnata, gwerthu a chyflenwi cynnyrch y fferm.

2.4.3 Mae gofyn cyflawni'r gweithrediadau hyn ar yr adegau mwyaf buddiol er mwyn osgoi gwaith cynamserol ac effaith andwyol ar ansawdd cnydau. Nid y cloc ond amodau

amgylcheddol a'r tywydd sy'n llywio amseru optimaidd y gweithrediadau hyn, ac ni ellir rhagweld y rhain wrth gynllunio cnydau. Felly efallai y bydd amodau annisgwyl yn pennu pryd y bydd angen gweithio, gan gynnwys ystyried anghenion y cnwd, gweithredoedd plâu / heintiau, a gofynion y farchnad cwsmeriaid. Yn ogystal mae'n rhaid cyflawni tasgau rheoli a gweinyddu o gwmpas y gweithgareddau hyn. Gall amgylchiadau fel hyn gyfrannu at gyfiawnhau'r angen swyddogaethol.

Er enghraifft:

Mae'n rhaid i ffermwyr ymateb i amodau lleol. Dim ond mewn amodau sych y gellir gwneud gwaith hofio effeithiol, er enghraifft. Os oes angen rheoli gwaith chwynnu ar gnydau, ac mae cyfnod byr o dywydd sych ar y gorwel, bydd y ffermwr menter lai ei maint yn gweithio'n hwyr nes gorffen y gwaith. Yn wahanol i ffermydd mwy eu maint, fel arfer nid oes llu o gontractwyr y gellir eu defnyddio i gyflawni'r gwaith dan sylw.

2.4.4 Mae agweddau iechyd a diogelwch yn ystyriaeth arall:

- Gellir lleihau'r risg i iechyd corfforol, lles ac iechyd meddwl ffermwyr trwy ddull o weithio hyblyg a digon o seibiannau yn ystod y dydd.
- Gall anafiadau straen ailadroddus roi terfyn ar yrfa ffarmwr, a dylid rheoli'r gwaith er mwyn osgoi'r perygl o hyn. Mae hynny'n golygu cael seibiant, a gall hynny olygu ymestyn y diwrnod gwaith, er enghraifft, wrth hofio mewn cyfnod tywydd ffafriol tynn.

## 2.5. Garddwriaeth

2.5.1 Mae natur y tasgau gwaith sydd eu hangen i lwyddo gyda menter arddwriaethol lai ei maint yn bwysig o safbwynt ei gweithredu'n iawn. Gall garddwriaeth ddwys graddfa fach fod yn sylweddol wahanol i gynhyrchu llysiau trwy ddulliau mecanyddol ar sail caeau er enghraifft, oherwydd:

- Lluosogi ar y fferm
- Cyfanswm nifer y mathau gwahanol o gnydau sy'n cael eu tyfu ar unrhyw adeg benodol
- Dwysedd y plannu
- Gosod cnydau gwahanol gydag anghenion gwahanol yn agos at ei gilydd, gan olygu nad yw gweithrediadau eang eu graddfa'n ymarferol
- Defnyddio systemau megis:
    - Cnydau lluosog
    - Plannu ategol
    - Rhediadau plannu byr
- Defnyddio llafur â llaw neu fecaneiddio ar raddfa fach
- Dulliau troi'r pridd a rheoli chwyn
- Rheoli microhinsawdd, er enghraifft trwy ddiogelu cnydau a gorchuddio cnydau
- Agweddau tuag at gynnal ffrwythlondeb y pridd, megis defnyddio compostau

- Gofynion cynaeafu o ran cnydau bregus ac arbenigol
- Cyflyriad blodau.

  Er enghraifft:

  Efallai y bydd angen dulliau rheoli neilltuol ar gnydau arbenigol: mae blodau courgettes yn gnwd uchel ei werth sy'n ychwanegu incwm sylweddol ar ben gwerth y cnwd courgettes ei hun. I sicrhau'r cynnyrch gorau posibl, mae'r blodyn yn cael ei gynaeafu wrth iddo agor gyda'r wawr. Os caiff ei gynaeafu'n ddiweddarach, bydd y blodyn yn fregus ac ni ellir ei ddefnyddio. Gall fferm fach werthu miloedd o flodau courgettes mewn tymor, ac mae angen trin pob un yn ofalus, wrth ei gynaeafu, ei bacio a'i gadw.

## 2.6. Anifeiliaid

2.6.1 Nid yw anifeiliaid yn hanfodol i ddangos angen swyddogaethol, er maent yn rhan o'r fenter arddwriaethol os maent yn darparu cyfiawnhad ychwanegol. Hwyrach y bydd rhai mentrau garddwriaethol llai eu maint yn rhedeg model ffermio heb dda byw, weithiau gyda chysylltiadau gyda ffermydd da byw cyfagos. Gellir cynnwys niferoedd bach o dda byw a dofednod yn y fferm i gynorthwyo gyda'r tir ehangach, ffrwythlondeb a rheoli plâu heb fod yn ffactor allweddol wrth gyfrannu at broffidioldeb.

2.6.2 Mae llawlyfrau ffermio'n delio gyda gofynion cyffredinol o ran gweithwyr ar gyfer da byw a dofednod, gan gynnwys mentrau llai eu maint.

## 2.7. Awtomeiddio / Technoleg / Peiriannau

2.7.1 Gall awtomeiddio, technoleg a pheiriannau helpu lleihau'r gofynion ar gyfer gweithwyr ar fenter arddwriaethol graddfa lai, lle mae'n hyfyw o safbwynt economaidd a phriodol gwneud hynny. Er hynny, bydd gofyn lefelau priodol o weithwyr â llaw, goruchwyliaeth ac arsylwi gan y ffermwr ar bob menter, ac mae'n wir hyd heddiw bod yn rhaid i bobl gyflawni llawer o dasgau i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y fenter.

2.7.2 Bydd gan fentrau garddwriaethol llai eu maint rhyw fath o system cnydau gyda chysgod neu a ddiogelir, i ymestyn y tymor tyfu hyfyw ac i alluogi lluosogi a thyfu ystod eang o gnydau planhigion. Mae gorchuddion cnydau allanol a chnuoedd amaethyddol yn dechnoleg werthfawr o safbwynt tyfwyr, ond mae angen eu rheoli'n ofalus ac mae'n rhaid eu tynnu a'u gosod yn ôl wedyn i ganiatáu rheoli cnydau. Bydd gofynion rheoli'r systemau diogelu cnydau hyn, lle bwriedir eu defnyddio, yn ychwanegu mwy o gyfiawnhad i'r angen swyddogaethol.

> Er enghraifft:
>
> Mae llawer o gnydau'n destun difrod potensial gan blâu a gellir osgoi hyn trwy ddefnyddio gorchudd masgl i ddiogelu cnydau. Gellir defnyddio'r gorchudd dros fathau gwahanol o blanhigion sydd ag anghenion gwahanol. Mae'n rhaid tynnu'r gorchuddion hyn a'u gosod yn ôl wedyn er mwyn cael mynediad at gnydau ar gyfer gwaith cynnal a chadw neu gynaeafu. Yn aml iawn, gwneir y gwaith yma â llaw oherwydd maint y llain a dwysedd y plannu. Mae'n rhaid eu gosod yn ôl cyn gynted â phosibl er mwyn rheoli plâu penodol megis pryfed moron neu chwilen naid.

Os bydd y gorchudd yn chwythu oddi ar y cnwd gan ei adael yn agored am ychydig o oriau ar ganol yr haf, gall rhai cnydau gael eu heintio, ac ni ellir eu gwerthu. Yn ogystal gall y gwynt chwythu gorchuddion dros gnydau cyffiniol. Mae'r ddau beth hyn yn enghreifftiau o sefyllfaoedd annisgwyl, a all digwydd ar unrhyw adeg. Mae bod ar gael i weld a chywiro'r sefyllfa'n hollbwysig mewn perthynas â chynnal cnydau o safon.

### 2.8. Sefyllfaoedd Annisgwyl

2.8.1 Yn ôl TAN 6, paragraff 4.8.1 dylai'r angen ymwneud â sefyllfaoedd annisgwyl a all godi, lle mae gofyn i weithwyr fod wrth law tu allan i oriau gwaith arferol ar gyfer y fenter arddwriaethol dan sylw. Gall y rhain ddigwydd ar fenter graddfa lai ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos, a gall deillio, er enghraifft, o:

- Dywydd eithafol
- Newid mewn amodau amgylcheddol o ddydd i ddydd
- Systemau'n methu (dŵr, awyru, storfa oer ac ati.)
- Anifeiliaid pla
- Da byw sydd wedi dianc
- Lles anifeiliaid
- Gofynion cwsmer (archebion ar fyr rybudd)
- Sefyllfaoedd 'argyfwng' eraill megis lladrad, fandaliaeth a damweiniau.

## 3. Prawf Amser

### 3.1. Mewnbwn Llafur Llawn Amser

3.1.1 Os caiff yr angen swyddogaethol ei brofi, wedyn bydd gofyn ystyried nifer y gweithwyr i ddiwallu'r angen, ac o ran hynny bydd graddfa a natur y fenter arddwriaethol yn berthnasol.

3.1.2 Lle nad oes unrhyw annedd yn gysylltiedig â'r fenter arddwriaethol graddfa lai ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r gweithiwr y mae'r angen swyddogaethol yn profi'r angen ar gyfer llety newydd ar ei gyfer, fod yn weithiwr llawn amser. Felly mae'n rhaid i angen swyddogaethol cynnig ar gyfer menter arddwriaethol graddfa lai dangos y gofyn ar gyfer gweithiwr llawn amser.

3.1.3 Bydd y mewnbwn llafur angenrheidiol yn destun newidiadau tymhorol. Bydd gofyn llafur trwy gydol y flwyddyn ar fentrau garddwriaethol hyfyw llai eu maint, ac nid yw cyfnod o alw is ar gyfer gweithiwr dyddiol dros dymor y gaeaf yn profi nad yw'r prawf amser yn cael ei brofi. Gall mabwysiadu dulliau gwaith amaethecolegol o ran rheoli tir hefyd gynyddu'r oriau llafur dilys sydd eu hangen.

3.1.4 Mae'r mewnbwn llafur sydd ei angen i redeg menter arddwriaethol graddfa lai'n anodd ei asesu gan ddefnyddio llawlyfrau rheoli ffermydd safonol. Mae hyn yn wir yn

benodol o ran mentrau garddwriaethol a mentrau sy'n arfer dulliau amaethecolegol wrth reoli tir. Mae tystiolaeth gynyddol cofnodion mentrau garddwriaethol hyfyw sydd wedi derbyn caniatâd ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig wedi dangos y mewnbwn llafur llawn amser ar lawr gwlad. Gellir defnyddio'r broses o gadw cofnodion priodol, cymesur i ddangos y gofynion o safbwynt llafur.

## 3.2. Oriau Gwaith ac Asesiadau Safonedig

3.2.1 Cydnabyddir y bydd llawer o weithwyr mentrau bach gwledig yn gweithio oriau hir a gwrthgymdeithasol, ac yn aml mae eu llafur yn cael ei danbrisio. Wrth asesu gofynion llafur felly, mae'n bwysig mabwysiadu safoni i raddau, sy'n galluogi defnyddio'r asesiad mewn ffordd gyson ymhlith mathau gwahanol o fentrau. Yn ganolog i hyn mae cysyniad diwrnod gwaith o 8 awr, neu SMD. Cydnabyddir fod ffermwyr yn draddodiadol yn gweithio oriau hir. Trwy ddefnyddio system SMD (Dyddiau Dyn Safonol) i asesu anghenion llafur, yn draddodiadol mae uned llafur llawn amser wedi ei bennu fel 275 diwrnod x 8 awr = 2,200 awr.

3.2.2 Mewn diwydiannau eraill mae gweithwyr llawn amser fel arfer yn gweithio 40 awr, pum diwrnod yr wythnos gyda gwyliau statudol o 28 diwrnod (5.6 wythnos) y flwyddyn, sy'n golygu blwyddyn waith o 1,856 awr. Disgwylir I weithiwr llawn amser ar fenter arddwriaethol lai ei maint mewn realiti'n gweithio'n nes at 2,200 awr gan ystyried natur y mentrau hyn.

3.2.3 Mae SMD yn derbyn cydnabyddiaeth eang fel system addas i amcangyfrif anghenion llafur mentrau ffermio mwy traddodiadol. Er hynny nid yw TAN 6 yn nodi defnyddio SMD i asesu anghenion llafur ac ni ystyrir fod y system hon yn briodol ar gyfer mentrau garddwriaethol llai eu maint fel y cydnabyddir mewn llawlyfrau cynllunio ffermydd. Mewn perthynas â SMD, mae'r llawlyfr poblogaidd Nix yn nodi:

"Dyluniwyd y data yma i adlewyrchu amaethyddiaeth ar raddfa fasnachol, felly cyfyngedig fydd ei werth i ffermydd sy'n cynhyrchu ar raddfa lai."

3.2.4 Wrth archwilio'r gwahaniaethau rhwng ffermydd mawr a llai eu maint, mae Llawlyfr Rheoli Ffermydd Organig 2023 (OFMH) yn nodi:

"Mae ffermio a thyfu ar ffermydd bach yn dra gwahanol i unedau mwy eu maint, sydd fel arfer yn cael eu hadrodd yn Llawlyfr Rheoli Ffermydd Organig. Nid yn unig y mae disgwyliadau a natur y busnes yn wahanol, ond mae rhedeg ar raddfa fach, yn aml gyda mewnbwn llafur uchel, ychydig o fecaneiddio a marchnata i nifer o fathau o safleoedd gwerthu gan gynnwys uniongyrchol, yn golygu taw ychydig iawn o debygrwydd i ffermydd mwy sy'n bodoli o ran costau, cynhyrchiant ac enillion. Mae hyn yn benodol wir o ran tyfwyr llai, sy'n gyfrifol am sector unigryw, arloesol a phwysig o ran cynhyrchiant organig."

## 3.3. Data Amgen

3.3.1 Felly mae angen dulliau gwaith gwahanol o ran amcangyfrif gofynion amser ar gyfer mentrau garddwriaethol graddfa lai. Os yw menter wedi rhedeg ers nifer o flynyddoedd, gyda neu heb annedd, dylai fod mewn sefyllfa i ddefnyddio cofnodion o ran gofynion llafur a gasglwyd eisoes. Gall y rhain ddangos gofyn am weithiwr llawn amser neu ganiatáu amcanestyniadau efallai er mwyn asesu'r gofyn o ran llafur ar gyfer y fenter sy'n gwneud cais am ddarpar annedd.

3.3.2 Hwyrach y bydd y cofnodion hyn hefyd yn cofnodi patrwm a llif gofynion llafur ar draws y dydd, wythnos, tymor a'r flwyddyn i helpu profi'r angen swyddogaethol.

3.3.3 Bydd gofyn cynlluniau busnes cadarn sy'n disgrifio y busnes(au) ar gyfer ceisiadau ar gyfer menter newydd sy'n gwneud cais am Annedd Menter Wledig, a hwyrach y bydd angen cyfeirio at fentrau sefydledig eraill, tebyg eu math a'u cymeriad i amcangyfrif y mewnbwn llafur.

3.3.4 Bydd gofyn i weithredwyr mentrau sy'n bodoli eisoes ddarparu cofnodion priodol a gadwyd i ategu ceisiadau cynllunio ar gyfer Annedd Menter Wledig.

# 4. Prawf Ariannol

## 4.1. TAN 6

4.1.1 Mae TAN 6 yn pennu y dylai'r fenter wledig fod yn gadarn o safbwynt ariannol gyda rhagolygon da o aros yn gynaliadwy o safbwynt economaidd am gyfnod rhesymol, o leiaf pum mlynedd fel arfer.

4.1.2 I fod yn hyfyw neu'n gynaliadwy, mae'n rhaid i unrhyw fenter busnes fod yn:

- broffidiol -mae'n rhaid i'r incwm fod yn uwch na'r gwariant yn rheolaidd;
- ddichonol - gyda digon o gyllid i gefnogi gweithrediadau masnachu parhaus; ac
- yn werth chweil – yn darparu enillion rhesymol o ran yr adnoddau a ddefnyddir ganddo.

4.1.3 Bydd angen tystiolaeth o berfformiad economaidd gwirioneddol neu botensial. Dylai hyn fod ar ffurf:

- Cynllun busnes clir (ar gyfer menter sy'n sefydlu).
- Y perfformiad ariannol hyd yma ac amcanestyniadau'r dyfodol er mwyn asesu hyfywedd (ar gyfer menter sefydledig).
- Eglurhad o amcanestyniadau'r dyfodol.

4.1.4 Dylai'r wybodaeth ariannol a ddarperir cynnwys: holl gostau'r busnes, cyflogau, lwfans ar gyfer dibrisiant, rhent, unrhyw drethi perthnasol, a dylai ddangos y gellir bodloni'r taliadau benthyciad neu forgais sydd ei angen i sefydlu'r busnes.

4.1.5 Yn ôl TAN 6, "Er mwyn asesu cynaliadwyedd economaidd, bydd yn rhaid dangos fod gan y busnes ragolygon rhesymol o ddarparu enillion y farchnad ar gyfer yr holl weithredwyr o ran y rheolaeth a mewnbwn llafur â llaw."

## 4.2. Enillion y Farchnad ac Elw

4.2.1 Mae'n rhaid talu holl weithwyr busnes amaethyddol yr isafswm cyflog amaethyddol

priodol yn unol â Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) am yr oriau maent yn eu gweithio, a dylai cynlluniau busnes a chofnodion ariannol ddangos hyn.

4.2.2 Nid yw gweithredwyr-berchnogion hunangyflogedig yn weithwyr, ac felly nid yw'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol yn berthnasol iddynt. Er hynny, mae dal angen iddynt dderbyn enillion y farchnad rhesymol am eu gwaith gyda'r fenter.

4.2.3 Mae'r Arolwg Busnesau Ffermio (FBS)[5] yn diffinio enillion ariannol neu'r farchnad fel a ganlyn: 'Ar gyfer busnesau anghorfforedig, mae incwm busnes fferm yn cynrychioli'r enillion ariannol a delir i bob gweithiwr digyflog (ffermwyr, gŵr/gwraig, partneriaid heb gontract a'u gwŷr/gwragedd, a gweithwyr teuluol) ac ar yr holl gyfalaf a fuddsoddwyd ym musnes y fferm (gan gynnwys tir ac adeiladau). Mae incwm busnes y fferm yr un peth â'r elw net.'.


4.2.4 Mae gweithredwyr-berchnogion yn 'weithwyr digyflog', ac felly mae enillion y farchnad dan sylw yn cyfateb i broffidioldeb y fenter.

4.2.5 Dengys meincnodi'r FBS ar gyfer 2022[6] ar hyn o bryd bod ffermydd cymysg yng Nghymru'n gwneud:

- Elw net o £8.73 fesul £100 o drosiant gan gynnwys taliadau cymhorthdal.
- Enillion ar fuddsoddiad cyfalaf o 1.3%.

O gymharu â hyn, roedd sampl o fentrau garddwriaethol hyfyw bach, oedd wedi derbyn caniatâd cynllunio rhwng 2020 a 2023 wedi gwneud:

- Elw net o ryw £60+ fesul £100 o drosiant, yn aml heb daliadau cymhorthdal.
- Enillion ar fuddsoddiad cyfalaf o ryw 25%.




4.2.6 Mae diweddariad Pecyn Tystiolaeth Amaeth yn y DU – Medi 2022[7] yn dangos ar gyfartaledd, ar draws pob math o fferm , bod rhan amaethyddol y busnes wedi gwneud elw bach o £5,600 rhwng 2019/2020 a 2020/21. Roedd elw ffermydd garddwriaethol yn sylweddol uwch.

4.2.7 Dengys Ffigur 1 uchod y lefelau proffidioldeb uwch o ran garddwriaeth, a thaw elfennau amaethyddol y busnes sy'n ysgogi hyn yn bennaf.

4.2.8 Ar y cyfan, mae'r cyd-destun hwn yn dangos sut y gall daliadau garddwriaethol llai

[5] https://www.farmbusinesssurvey.co.uk/
[6] https://www.farmbusinesssurvey.co.uk/benchmarking/Default.aspx?module=PerfmRatios
[7] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1106562/AUK_Evidence_Pack_2021_Sept22.pdf

bod yn sylweddol mwy proffidiol o safbwynt cymesuredd na mathau eraill o ddaliadau llai.

## 4.3. Cynaliadwyedd Economaidd

4.3.1 Serch hynny, bydd angen dangos fod y fenter yn economaidd gynaliadwy, h.y. yn ddigon proffidiol i fodloni anghenion incwm y fenter ac aelwyd y gweithredwr-berchennog.

4.3.2 Mae'n rhaid i isafswm anghenion incwm yr aelwyd i'w diwallu o elw net y fenter at ddibenion y canllawiau hyn fod yn ddigon i gyllido'r costau canlynol:

- Treth y Cyngor / Ardrethi Busnes fel bo'n briodol
- Yr holl fwyd a brynir
- Yr holl gostau cludiant domestig – (bydd costau cludiant y busnes yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon y busnes)
- Unrhyw gostau ynni domestig
- Unrhyw gostau dŵr domestig
- Dillad
- Costau cyfathrebu, nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon busnes
- Unrhyw gostau gofal iechyd
- Swm ychwanegol sy'n cyfateb i 30% o'r cyfanswm uchod ar gyfer gwariant arall fel arian wrth gefn addas.

4.3.3 Yn ogystal, dylai ceisiadau cynllunio ddangos y bydd cyfanswm incwm yr aelwyd ac unrhyw gyfalaf sydd ar gael yn ddigon i dalu costau'r annedd, gan gynnwys taliadau morgais, ac unrhyw weithrediadau masnachu parhaus ar gyfer y fenter.

4.3.4 Yn aml bydd aelwydydd sy'n byw ar fentrau garddwriaethol llai eu maint yn gallu bodloni rhai o'u hanghenion a lleihau rhai o'u costau oddi wrth y daliad, megis:

- Darparu bwyd o'r fenter;
- Systemau ynni adnewyddadwy ac ynni arall o'r daliad;
- Costau cymudo llai; a
- Chostau tai llai.

4.3.5 Mewn achos o'r fath, bydd isafswm incwm yr aelwyd i'w bodloni'n cael ei leihau.

4.3.6 Ar y cyfan, dylid seilio lefel y proffidioldeb sydd ei angen ar fenter arddwriaethol graddfa lai er mwyn cynnal aelwyd y fferm ar fodloni cyfanswm isafswm incwm yr aelwyd. Dylai'r gwerthusiad sy'n cael ei lunio i ategu'r cais cynllunio ddangos y gellir cynnal hyn, neu ei wella dros amser.

4.3.7 Hefyd, dylid cydnabod hwyrach y bydd ffynonellau incwm eraill ar gael i'r aelwyd, neu gostau eraill, fel sy'n wir am y rhan fwyaf o ffermydd. Hefyd bydd gofyn i'r gwerthusiad ddangos bod digon o gyllid ar gael i alluogi'r fenter i barhau â'r gweithrediadau masnachu.

### 4.4. Maint a Math yr Annedd

4.4.1 Dylai anheddau ar gyfer gweithwyr gwledig fod o faint priodol a chydymffurfio â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol eraill. Hwyrach y bydd cabanau wedi'i hinsiwleiddio neu ddewisiadau eraill yn hytrach nag annedd confensiynol yn rhatach i'w hadeiladu ac felly'n golygu llai o faich ariannol ar y fenter.

4.4.2 Dylai maint annedd adlewyrchu anghenion y fenter, ond, trwy ymestyn y meddiant potensial oherwydd amodau cynllunio i'r sawl sy'n gymwys ar gyfer tai fforddiadwy, dylai ymgeiswyr hefyd ystyried yr agwedd hon.

4.4.3 Hefyd bydd angen ystyried lleoliad a dyluniad y darpar annedd yn erbyn polisïau eraill perthnasol y cynllun datblygu a phrif ystyriaethau cynllunio er mwyn bod yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, megis ei effaith ar y dirwedd.

### 4.5. Anheddau Dros Dro

4.5.1 Yn ôl TAN 6, paragraff 4.6.2, "Lle nad yw'r achos dros godi annedd wedi'i brofi'n gyfan gwbl, ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Er hynny, mae'n bosibl y bydd yn briodol i'r awdurdod cynllunio roi prawf ar y dystiolaeth trwy roi caniatâd i godi llety dros dro am gyfnod penodol. Fel rheol, bydd tair blynedd yn ddigon i sicrhau bod yr amgylchiadau'n cael eu hasesu'n llawn. Os rhoddir y cyfryw ganiatâd ar gyfer llety dros dro, ni ddylid rhoi caniatâd ar gyfer annedd parhaol wedyn oni fodlonir y meini prawf ym mharagraff 4.4.1 neu
4.6.1. Dylai'r awdurdod cynllunio egluro yn yr amodau cynllunio am ba hyd y rhoddir y caniatâd dros dro, ac y bydd yn rhaid symud y llety dros dro pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth ynghlwm wrth yr hysbysiad o'r penderfyniad cynllunio yn nodi'r gofynion y bydd rhaid eu bodloni er mwyn cael caniatâd parhaol. Ni fydd yn foddhaol rhoi estyniadau olynol i ganiatâd dros dro os bydd hynny'n arwain at roi caniatâd am fwy na chyfanswm o dair blynedd."

4.5.2 Felly, gellir cymeradwyo caniatâd dros dro, a bydd gofyn i werthusiad yr Annedd Menter Wledig gyfiawnhau'r cyfnod y gwneir cais amdano, os bydd y cyfnod arfaethedig yn hirach na 3 blynedd.

## 5. Crynodeb o Wybodaeth sydd ei Hangen gan Ymgeiswyr

5.1.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r wybodaeth y dylai ymgeiswyr ei darparu er mwyn hysbysu paratoi gwerthusiad o Annedd Menter Wledig. Dylai ymgeiswyr geisio cyngor annibynnol arbenigol gan unigolyn / sefydliad sydd â chymwysterau priodol er mwyn llunio'r gwerthusiad. Mae Adran 6 yn olrhain cyngor pellach o ran llunio'r gwerthusiad.

### 5.2. Cais Math 1 – ar gyfer Annedd Newydd ar Fenter Sefydlediga

5.2.1 Dylai ymgeiswyr ddarparu manylion y fenter a thystiolaeth o'i pherfformiad ariannol. Mae hyn yn cynnwys pob eitem a bennir yn y canllawiau cynllunio hyn ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Mae gofynion y canllawiau hyn fel a ganlyn:

- Naratif sy'n disgrifio'r fenter – gall hyn fod yn rhan o gynllun busnes:
  - Ar gyfer menter arddwriaethol, systemau lluosogi, cynhyrchu cnydau, cynaeafu, cynnyrch, llwybrau i'r farchnad a risgiau o ran proffidioldeb.
  - Ar gyfer mentrau garddwriaethol gydag elfen o systemau da byw neu ddofednod, magu a phesgi anifeiliaid, cynnyrch, llwybr i'r farchnad a risgiau o ran proffidioldeb.
  - Gwybodaeth ynghylch rheoli'r ffermdir ehangach mewn ffordd gynaliadwy.

- Cofnod o ran gofynion llafur - gall y dystiolaeth fod ar ffurf ysgrifenedig â llaw (nodiaduron) neu electronig (taenlenni).

- Tystiolaeth o batrwm, llif ac amseru'r gwaith (gan ddangos yr amser a dreulir ar dasgau ac amseru'r tasgau a gweithrediadau dros ddyddiau, wythnosau a misoedd arferol y flwyddyn gyfan).

  - Cyhoeddir esiampl o daenlen ar gyfer cadw cofnodion amser ac i ddangos patrwm a llif y gwaith gan ddangos yr amser a dreulir ar dasgau ac amseru'r tasgau dros ddyddiau, wythnosau a misoedd arferol ochr yn ochr â'r canllawiau hyn.
  - Dylai'r data a ddefnyddiwyd ar gyfer y daenlen neu ddulliau eraill o gyflwyno'r dystiolaeth ddeillio o gofnodau llafur sy'n bodoli eisoes.
  - Dylid adnabod a chofnodi ar wahân yr oriau a weithir gan weithwyr tymhorol.
- Cofnodion o ddigwyddiadau argyfwng, sydd wedi digwydd a rhai wedi eu hosgoi, os yn berthnasol.
- Manylion unrhyw gynlluniau i dyfu yn y dyfodol, os yn berthnasol.
- Tystiolaeth y sefydlwyd y busnes am o leiaf tair blynedd.
- Tystiolaeth o berfformiad ariannol am o leiaf tair blynedd yn olynol, gan gynnwys datganiad cyfrifydd neu gofnodion amgen y gellir eu dilysu.
- Gwariant yr aelwyd yn unol â pharagraff 4.3.2.
- Manylion o ran sut y caiff costau'r annedd eu bodloni, yn unol â pharagraff 4.3.3.

## 5.3. Cais Math 2 – ar gyfer Annedd Dros dro ar Fenter newydd

5.3.1 Dylai ymgeiswyr ddarparu manylion am y fenter arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys pob eitem a bennir yn y canllawiau cynllunio hyn ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall, megis:

- Tystiolaeth o fwriad pendant a gallu i ddatblygu'r fenter wledig:
  - Manylion o ran buddsoddiad yn y busnes.
  - Cynllun busnes fel y'i disgrifir isod.

  - Hyfforddiant a / neu brofiad perthnasol.

- Gwybodaeth i ddangos ei fod yn debyg y bydd angen swyddogaethol ar gyfer gweithiwr llawn amser i sicrhau fod y fenter yn rhedeg yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:
- Cynllun cadarn, sy'n cynnwys rhagolygon ariannol sy'n delio gyda:
  - Natur y fenter, ei chynnyrch, y staffio arfaethedig a'r systemau cynhyrchu.
  - Tystiolaeth o farchnadoedd ar gyfer y cynnyrch.
  - Gwerth y gwerthiant a ragwelir yn seiliedig ar gynlluniau cynhyrchu credadwy, cnydau a phrisio.
  - Mae'r ddolen hon ar gyfer arf cynllunio busnes ar gyfer tyfwyr llysiau bach: https://www.organicresearchcentre.com/resources/resource-library/horticultural-costings-tool-for-small-scale-growers/
- Gwariant amcanestynedig yr aelwyd fel y nodir ym mharagraff 4.3.2.
- Yr angen amcanestynedig ar gyfer llafur, patrymau a llif gwaith.
- Manylion cwmpas a maint y cynhyrchiant a'r tasgau y bydd gofyn i'r ffarmwr ddelio gyda nhw. Gall fod yn berthnasol cynnwys cynlluniau cnydau'r fferm.
- Unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n deillio o brofiad blaenorol yr ymgeisydd. Er enghraifft, os mae wedi rhedeg neu wedi gweithio mewn busnes tebyg, gan gynnwys mewn swydd ran amser.
- Cyfeiriadau at astudiaethau achos daliadau llwyddiannus tebyg eu maint a'u gweithrediadau, i'w cymharu, os yn berthnasol.
- Tystiolaeth y bydd trefniadau i gadw cofnodion cadarn yn cael eu sefydlu er mwyn cofnodi mewnbwn llafur a pherfformiad ariannol trwy gydol unrhyw gyfnod treialu.

# 6. Cyfarwyddyd i'r sawl sy'n Paratoi Gwerthusiad o Annedd Menter Wledig

6.1.1 Mae'r adran hon yn disgrifio sut y dylai unigolyn / sefydliad annibynnol gyda chymwysterau addas lunio gwerthusiad yr Annedd Menter Wledig, o'r wybodaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr yn unol ag Adran 5 uchod. Darperir isod dau fath o werthusiad o geisiadau.

## 6.2. Gwerthusiad Math 1 – Cais ar gyfer Annedd Newydd ar Fenter Sefydledig

### Asesu Angen Swyddogaethol

6.2.1 Dylai'r sawl sy'n llunio'r gwerthusiad:

- Sicrhau fod ymgeiswyr wedi cyflwyno'r holl dystiolaeth angenrheidiol.
- Asesu sut mae ffactorau a amlinellir yn Adran 2 y canllawiau cynllunio hyn yn cyfrannu at redeg y fenter yn effeithiol a'i phroffidioldeb.
- Ystyried holl elfennau'r fenter a'r patrymau gwaith a ddangoswyd gan yr ymgeiswyr.

6.2.2 Gellir bodloni'r prawf angen swyddogaethol gan gyfuniad o rai neu bob un o'r ffactorau yn y canllawiau cynllunio hyn wrth eu hystyried fel cyfanwaith, yn dibynnu ar natur benodol y daliad a'r fenter.

## 6.3. Asesu Mewnbwn Llafur

6.3.1 Dylai'r sawl sy'n llunio'r gwerthusiad:

- Ystyried cyfanswm yr oriau gwaith a gofnodwyd gan yr ymgeisydd, a chyfanswm yr angen ar gyfer llafur y fenter.
- Asesu sut mae'r ffactorau a nodwyd yn Adran 3 y canllawiau cynllunio hyn yn berthnasol i gyfanswm y llafur sydd ei angen.

6.3.2 Dylai gofynion y prawf amser cyfanswm oriau gwaith yr ymgeisydd fod o leiaf 1,856 awr y flwyddyn.

## 6.4. Asesu'r Prawf Ariannol

6.4.1 Dylai'r gwerthusiad:

- Sicrhau fod ymgeiswyr wedi cyflwyno tystiolaeth o berfformiad ariannol y fenter. Bydd gofyn cael adroddiad archwiliedig cyfrifydd neu gofnodion ariannol y gellir eu dilysu, sy'n delio gyda'r holl ffactorau a amlinellir yn Adran 4.

6.4.2 Mae gofynion y prawf ariannol fel a ganlyn:

- Mae'r fenter yn cyflwyno tystiolaeth ei bod wedi creu digon o elw net i dalu'r costau a bennir ym mharagraff 4.3.2 ym mhob un o'r tair blynedd olynol ddiwethaf.
- Mae'r fenter yn cyflwyno tystiolaeth y gellir bodloni costau'r aelwyd fyddai'n byw yn yr annedd arfaethedig, gweler paragraff 4.3.3.

## 6.5. Gwerthusiad Math 2 - Ar gyfer Ceisiadau ar gyfer Anheddau Dros Dro Newydd ar Fentrau Newydd

6.5.1 Caiff y gofynion llafur a pherfformiad ariannol menter eu profi'n drylwyr yn ystod cyfnod unrhyw ganiatâd dros dro.

## 6.6. Asesu Bwriad a Gallu

6.6.1 Dylai gwerthuswyr:

- Sicrhau fod y cynllun busnes yn gadarn ac yn gredadwy gyda thystiolaeth o farchnadoedd ar gyfer cynnyrch, eu bod yn gallu cyfiawnhau prisiau, ac asesiadau o gnydau a chostau.
- Ystyried ffactorau eraill megis hyfforddiant a phrofiad ymgeiswyr a'r buddsoddiad yn y

daliad. Dylai cydnabod taw'r bwriad yw annog a chefnogi ffermwyr newydd ar fentrau garddwriaethol llai eu maint.

## 6.7. Asesu Angen Swyddogaethol

6.7.1 Dylai gwerthuswyr:

- Sicrhau fod ymgeiswyr wedi cyflwyno'r holl dystiolaeth angenrheidiol.
- Asesu sut y gall ffactorau a amlinellir yn Adran 2 y canllawiau cynllunio hyn gyfrannu at weithredu'r fenter arfaethedig yn effeithiol a phroffidioldeb y fenter, a lleihau'r risgiau i'r fenter a'r ffermwr.
- Cyfeirio at astudiaethau achos daliadau llwyddiannus tebyg eu maint a'u gweithrediadau i'w cymharu, os yn berthnasol.

6.7.2 Gellir profi'r prawf angen swyddogaethol trwy gyfuniad o rai neu bob un o ffactorau'r canllawiau cynllunio hyn wrth ei ystyried yn ei gyfanwaith, yn dibynnu ar fanylion a natur benodol y daliad a'r fenter.

## 6.8. Asesu Mewnbwn Llafur

6.8.1 Dylai gwerthuswyr:

- Asesu'r cyfanswm llafur amcanestynedig a gyflwynwyd ar gyfer y fenter.
- Cyfeirio at astudiaethau achos daliadau llwyddiannus tebyg eu maint a'u gweithrediadau i'w cymharu, os yn berthnasol.
- Ystyried tystiolaeth o oriau a weithiwyd gan yr ymgeisydd os yn berthnasol, er enghraifft, lle mae wedi rhedeg menter ran amser yn y gorffennol.
- Asesu sut y mae'r ffactorau a amlinellir yn y canllawiau cynllunio hyn yn berthnasol i'r anghenion llafur.

6.8.2 O ran y prawf amser, y gofyn yw y dylai cyfanswm yr oriau amcanestynedig credadwy i'w gweithio gan yr ymgeisydd fod o leiaf 1,856 awr y flwyddyn.

## 6.9. Asesu'r Prawf Ariannol

6.9.1 Dylai gwerthuswyr:

- Ystyried yr holl ffactorau a amlinellir yn Adran 4 y canllawiau cynllunio hyn.

6.9.2 Caiff y prawf ariannol ei fodloni'n ddigonol er mwyn cyfiawnhau annedd dros dro yn unig pan:

- Fydd yr amcanestyniadau ariannol credadwy yn ddigon i gynnal lefel y proffidioldeb a amlinellir ym mharagraff 4.3.2.

  A

- Gellir bodloni costau'r annedd arfaethedig, gweler paragraff 4.3.3.

## 6.10. Profion eraill TAN 6

6.10.1 Mae adrannau canlynol TAN 6 hefyd yn berthnasol i bob cais ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig, ac mae’n rhaid ymateb i’r rhain yn y gwerthusiad sy’n cael ei lunio i ategu’r cais cynllunio:

- TAN 6 Adran 4.11 Prawf annedd arall
- TAN 6 Adran 4.12 Gofynion cynllunio eraill
- TAN 6 Adran 4.13 Amodau mediant.

# Geirfa

**Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol Cymru** – Deddfwriaeth sy'n sicrhau fod gweithwyr amaethyddol yn derbyn cyflogau, lwfansau a thelerau cyflogaeth teg, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**Mentrau sefydledig** - Busnes fferm a sefydlwyd am dros 3 blynedd. Hwyrach i'r busnes dderbyn caniatâd ar gyfer annedd dros dro.

**Arolwg o Fusnes Fferm** –Ffynhonnell swyddogol ffigurau o ran incwm ffermydd yng Nghymru a Lloegr. https://www.farmbusinesssurvey.co.uk/

**Menter arddwriaethol** - busnes sy'n ymwneud â thyfu a rheoli planhigion megis:

**Cynhyrchu Llysiau:** Tyfu llysiau i'w bwyta, yn amrywio o erddi marchnad bach i weithrediadau mwy.

**Tyfu Ffrwythau:** Sef tyfu coed a llwyni ffrwythau.

**Tyfu Blodau:** Sy'n golygu tyfu planhigion sy'n blodeuo a rhai addurnol ar gyfer gerddi, at ddefnydd addurno, neu i'w gwerthu fel blodau a dorrwyd.

**Busnesau Planhigfeydd:** Lluosogi a thyfu planhigion i'w trawsblannu, i'w defnyddio fel stoc impio, neu i'w gwerthu.

**Tyfu Coed:** Sef tyfu a gofalu am goed a llwyni, yn bennaf ar gyfer cysgod, ac at ddibenion addurno a thyfu ffrwythau, ac ailgoedwigo.

**Tyfu Perlysiau:** Tyfu perlysiau at ddibenion coginio, meddygol neu aromatig.

**Cynhyrchu Hadau:** Mae rhai mentrau'n canolbwyntio ar gynhyrchu hadau i'w defnyddio ym maes garddwriaeth, boed ar gyfer llysiau, blodau neu blanhigion eraill.

**Dwys** - Mae arfer amaethyddol a elwir 'ffermio dwys' yn defnyddio llawer mwy o lafur ac adnoddau o'i gymharu â'r tir a ddefnyddir ar gyfer y busnes.

**Menter gymysg** - sef busnes sy'n ymwneud â thyfu a rheoli planhigion a magu da byw. Mewn systemau dwys bach hwyrach y bydd da byw'n bresennol fel rhan o'r drefn ehangach i reoli'r tir.

**Gweithrediadau** - Gweithrediadau ffermio yw'r gweithgareddau megis tyfu, lluosogi, hau, plannu, cynaeafu, rheoli chwyn, dyfrio a gweithrediadau tebyg sy'n gyffredin ar y rhan fwyaf o ffermydd, ac sy'n cael eu cyflawni ar fferm. Hwyrach y bydd y mathau safonol o weithrediadau ar fentrau llai'n wahanol i ffermydd mwy oherwydd y mathau gwahanol o offer a thechnegau a ddefnyddir.

**Patrymau a llif gwaith** - Sef y gyfres o weithrediadau y mae angen eu cyflawni i gwblhau llawer o dasgau ffermio mewn cyfnod penodol megis diwrnod, wythnos neu fis. Ar gyfer mentrau llai, peth cyffredin yw cyflawni llawer o dasgau gwahanol mewn diwrnod er mwyn delio gydag anghenion llawer o gnydau gwahanol.

**Rheolaeth gynaliadwy** - rheoli'r tir er mwyn cadw a chyfoethogi adnoddau pridd a dŵr, cynefinoedd, bioamrywiaeth a gwerth er budd bywyd gwyllt, ac i atafaelu carbon.

**Tasg** - darn o waith i'w wneud neu ei gyflawni, megis plannu cnwd, a all olygu nifer o weithrediadau (tyfu, plannu, dyfrio, diogelu).

## Atodiad 1 - Detholiadau o Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol

Mae PCC yn adnabod Anheddau Mentrau Gwledig fel anheddau sy'n cynrychioli un o'r ychydig o amgylchiadau lle gellir cyfiawnhau datblygiad preswyl newydd ynysig mewn cefn gwlad agored[8]

Diben 'anheddau mentrau gwledig' yw galluogi gweithwyr mentrau gwledig i fyw ar neu yn ymyl eu gweithle, gan gynnwys annog pobl iau i reoli busnesau ffermio a chefnogi arallgyfeirio ar ffermydd sefydledig.

Dylid archwilio pob cais ar gyfer anheddau mentrau gwledig newydd yn ofalus i sicrhau bod angen gwirioneddol ar eu cyfer. Bydd yn bwysig cadarnhau a yw'r fenter wledig yn rhedeg fel busnes ac y bydd yn parhau i redeg am gyfnod rhesymol.

Mae'n rhaid caniatáu ceisiadau ar gyfer anheddau mentrau gwledig yn unig lle mae gwerthusiad yr annedd menter wledig yn darparu tystiolaeth bendant o'r angen ar gyfer yr annedd.

Mae paragraff 4.6 TAN 6 yn olrhain y gofynion ar gyfer annedd newydd ar fenter newydd:

a. tystiolaeth amlwg o fwriad cadarn a gallu i ddatblygu'r fenter wledig dan sylw (mae buddsoddiad sylweddol mewn adeiladau ac offer newydd yn aml yn arwydd da o fwriad);

b. tystiolaeth amlwg bod angen sefydlu'r fenter newydd yn y lleoliad arfaethedig ac na ellir ei leoli ar safle addas arall lle mae annedd yn fwy tebygol o fod ar gael;

c. tystiolaeth amlwg bod y fenter arfaethedig wedi'i chynllunio ar sail ariannol gadarn;

d. bod angen swyddogaethol clir am weithiwr amser llawn, nid rhan-amser;

e. ni ellid bodloni'r angen swyddogaethol gan annedd arall neu trwy drosi adeilad addas sydd eisoes ar safle'r fenter, nac unrhyw lety arall sy'n bodoli yn yr ardal sy'n addas ac ar gael i'r gweithwyr dan sylw ei feddiannu;

Lle nad yw'r achos yn cael ei brofi'n llwyr ar gyfer annedd, ni ddylid rhoi caniatâd ar ei gyfer, ond gall fod yn briodol i'r awdurdod cynllunio brofi'r dystiolaeth trwy roi caniatâd ar gyfer llety dros dro am gyfnod penodol. Fel arfer bydd tair blynedd yn briodol i sicrhau y caiff yr amgylchiadau eu hasesu'n llawn.

Mae TAN 6 yn pennu hefyd y disgwylir i geisiadau gael eu hategu gan werthusiad cadarn sy'n ddigonol i ganiatáu asesiad llawn o'r cais ac sy'n delio gyda'r:

**Prawf swyddogaethol** sy'n darparu tystiolaeth o ran a oes angen ar gyfer gweithiwr preswyl er mwyn i'r fenter redeg yn iawn. Mae hyn yn golygu:

er mwyn i'r fenter weithio'n iawn, i un neu fwy o weithwyr fod ar gael y rhan fwyaf o'r amser. Dylai ymwneud â sefyllfaoedd annisgwyl a all godi, lle bydd angen i weithwyr fod wrth law tu allan i oriau gwaith arferol ar gyfer y fenter dan sylw. Gall y fath ofynion ddigwydd, er enghraifft, os oes angen gweithwyr wrth law ddydd a nos i ddelio gydag argyfwng fyddai'n bygwth hyfywedd a bodolaeth barhaus y fenter heb sylw di-oed.

**Prawf amser** sy'n darparu tystiolaeth o ran gofynion llafur y gweithiwr sy'n gweithio ar y fenter sy'n destun y cyfiawnhad.

[8] Yn ogystal mae 'prawf gofynion cynllunio normal eraill' nad ydym yn ymhelaethu arno yn yr adroddiad hwn.

Lle nad oes llety'n gysylltiedig â'r fenter wledig ar hyn o bryd lle mae'n rhaid i'r angen swyddogaethol ar gyfer gweithiwr ar gyfer llety newydd, mae'n rhaid i'r gweithiwr fod yn llawn amser.

**Prawf ariannol** sy'n darparu tystiolaeth o gynaliadwyedd economaidd y fenter sy'n destun y cyfiawnhad.

Dylai'r fenter wledig a'r gweithgaredd dan sylw fod yn gadarn o safbwynt ariannol gyda rhagolygon da o aros yn gynaliadwy am gyfnod rhesymol, o leiaf 5 mlynedd fel arfer.

Bydd gofyn tystiolaeth o berfformiad economaidd (gwirioneddol) neu botensial. Er mwyn asesu cynaliadwyedd economaidd, bydd gofyn dangos fod gan y busnes ragolygon rhesymol o ddarparu enillion y farchnad ar gyfer yr holl weithredwyr mewn perthynas â'r mewnbwn rheolaeth a llafur, gan gynnwys y swydd y gwneir cais am annedd menter wledig ar ei chyfer, am o leiaf pum mlynedd.